



Benthyciad i Berchen- feddiannydd Taflen Ffeithiau

Benthyciad i Berchen-feddiannydd

Mae Benthyciad Perchen-Feddiannydd yn fenthyciad di-log a gynigir gan y Cyngor i berchnogion cartrefi, landlordiaid preifat, elusennau neu ddatblygwyr sydd am wneud gwelliannau i'w heiddo i'w gadw'n gynnes, saff a diogel.

Gallai enghreifftiau o waith cymwys gynnwys y canlynol:

- Gwaith trydan
- Atgyweirio'r to neu osod to newydd
- Ceginau ac ystafelloedd ymolchi
- Gwaith ar yr ardd os nad yw'n ddiogel
- Gwaith i ddatrys problem tamprwydd yn yr eiddo
- Gwelliannau Arbed Ynni, megis boeler newydd neu insiwleiddio.

Ffeithiau Allweddol:

- Mae'r rhaid i'r eiddo fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd.
- Mae'r math hwn o gymorth yn amodol.
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr basio asesiad fforddiadwyedd i fod yn gymwys am fenthyciad.
- Yr isafswm y gellir ei fenthycio yw £1,000. Yr uchafswm y gellir ei fenthycio yw £25,000 fesul eiddo.
- Mae'r benthyciad yn ddi-log.
- Bydd ffi weinyddol sefydlog o £500. Gellir ei thalu o flaen llaw, neu ei hychwanegu i swm y benthyciad.
- Mae'r holl fenthyciadau yn cael eu sicrhau fel pridiant cyntaf neu ail bridiant yn erbyn teitl y Gofrestrfa Tir.
- Nid all y benthyciad a gynigir a morgais yr eiddo fod dros 80% o werth yr eiddo gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu, os yw gwerth eich eiddo'n £100,000, ac mae'r morgais yn £75,000, gallwn fenthycio uchafswm o £5,000 i chi.
- Efallai y bydd angen prisiad RICS er mwyn tystio i bris yr eiddo.
- Os nad yw'r benthyciad yn talu am gost lawn y gwaith, yna byddwn yn gofyn i chi roi tystiolaeth o sut byddwch yn talu am weddill y gost.
- Ni all gwaith gychwyn hyd nes bydd yr asesiad fforddiadwyedd wedi ei gwblhau, "cymeradwyaeth" ffurfiol wedi'i rhoi a'r pridiant wedi ei ddiogelu'n erbyn yr eiddo.

Sut i ymgeisio:-

- Llenwch ffurflen Mynegi Diddordeb ar Wefan CSFf, “Mynegi Diddordeb Benthyciad Perchen-feddiannydd”. Wrth lenwi'r ffurflen, gofynnir i chi am fanylion gwaith gofynnol a'r swm bras rydych chi am ei fenthyg. Gofynnir i chi ddarparu prawf hunaniaeth gyda llun a Bil Cyfleustodau hefyd.

Caiff ffurflenni wedi'u llenwi eu cyfeirio at Swyddog Grantiau Adfywio a fydd yn adolygu'r wybodaeth rydych chi wedi'i chyflwyno a chysylltu â chi i gadarnhau a all eich cais barhau neu beidio.

- Llenwi Ffurflen Gais am Fenthyciad.

Bydd eich cais yn parhau os yw'r gwaith rydych chi wedi'i restru ar eich ffurflen mynegi diddordeb yn addas ar gyfer y benthyciad dan feini prawf Llywodraeth Cymru i wella eiddo trwy sicrhau eu bod yn gynnes, saff a diogel a bod gennych Ddyfyniad o'r Gofrestrfa Tir sy'n cadarnhau mai chi yw perchennog/perchnogion yr eiddo. Wrth lenwi'r ffurflen gais am fenthyciad, gofynnir i chi ddarparu rhagor o wybodaeth fanwl, gan gynnwys gwybodaeth ariannol i ganiatáu i ni gwblhau asesiad ariannol. Bydd angen dogfennau ategol ar y cam hwn - prawf o incwm, yswiriant adeilad, cyfriflenni banc. Byddwch yn cael eich cyngori ar ba ddogfennau sydd eu hangen gan y Swyddog sy'n prosesu eich cais.

Caiff ffurflenni wedi'u llenwi eu dychwelyd i'r Swyddog Grantiau Adfywio, gan gynnwys dau ddyfynbris ar gyfer y gwaith gwella rydych chi'n gobeithio ei wneud dan y cynllun.

- Asesiad Ariannol

Mae'r asesiad ariannol yn asesiad o'ch incwm a'ch gwariant i sicrhau bod y benthyciad rydych yn gwneud cais amdano'n fforddiadwy i chi. Bydd hyn yn cynnwys ymchwiliad i statws eich credyd hefyd.

- Cynnig Benthyciad

Byddwch yn cael cynnig benthyciad os ydych chi'n pasio'r asesiad fforddiadwyedd. Bydd eich cynnig o fenthyciad yn cynnwys eich ffigwr ad-dalu misol. Unwaith rydych wedi arwyddo a chyflwyno eich Cytundeb Benthyciad Perchen-feddiannydd a ffurflenni Ffi Gyfreithiol bydd pridiant yn cael ei ddiogelu yn erbyn eich eiddo. Pan mae hyn wedi cael ei gwblhau, byddwch yn derbyn llythyr i gadarnhau bod y benthyciad yn ddilys.

Pan fydd y benthyciad yn ddilys, gallwch drefnu dyddiad dechrau gyda'ch Contractwr dewisol.

- Taliadau

Gellir gwneud taliadau mewn camau ac/neu ar ôl cwblhau'r gwaith. I wneud taliad, gofynnir i chi anfon anfoneb y Contractwr i'r Swyddog Grantiau Adfywio. Pan fydd y taliad terfynol wedi'i wneud, bydd swyddog o Gyngor Sir y Fflint yn ymweld â'r eiddo a chadarnhau bod y gwaith wedi'i wneud.

- Beth sy'n digwydd os ydw i'n newid fy meddwl ac yn canslo'r cais am fenthyciad?

Gallwch ganslo eich cais am fenthyciad unrhyw bryd.

Sylwch: os byddwch chi'n canslo eich cais ar ôl i'r benthyciad gael ei gytuno a bod pridiant wedi'i roi ar yr eiddo, codir Ffi gweinyddu'r benthyciad arnoch.

Os yw'r benthyciad wedi cael tynnu unrhyw arian, yna bydd angen talu ffi ad-dalu.

Manylion cyswllt y Tîm Adfywio Tai

Cysylltwch â ni:

- Dros y ffôn – 01352/703460/62
- Dros e-bost – home.loans@flintshire.gov.uk
- Ysgrifennu atom – Adfywio Tai, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu, a ofynnir ar y ffurflen, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol yr ydych yn ei darparu i asesu eich cymhwysedd ar gyfer Benthyciad i Berchenfeddiannydd neu Gymorth Ariannol Ad-daladwy. Mae hyn yn ofynnol dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Cedwir y wybodaeth hon yn ddiogel ar system Cyngor Sir y Fflint am gyfnod o 3 mis. Os nad ydych yn gymwys, neu ddim yn dymuno cyflwyno cais llawn, bydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio ar ôl 3 mis.

Os caiff y cais llawn barhau, caiff y wybodaeth hon ei chadw'n ddiogel ar system Cyngor Sir y Fflint. Ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn cael eu cymeradwyo, cedwir am gyfnod o 12 mis. Ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer y benthyciad hwn, byddant yn cael eu cadw am isafswm o 5 mlynedd yn dilyn ad-dalu'r benthyciad yn llawn, fel y nodir o fewn y telerau ac amodau sydd yn ffurfio rhan o gytundeb y benthyciad gyda Chyngor Sir y Fflint.

Gall Cyngor Sir y Fflint wirio neu rannu'r wybodaeth yr ydych chi neu rywun arall wedi'i darparu, gyda sefydliadau eraill megis: Cofrestrfa Tir EM, eich banc neu roddwr benthyciadau credyd. Mae hyn yn ofynnol dan gytundeb Deddf Grantiau, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Os ydych o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, edrychwch ar yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan -

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>